| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau y Cynghorydd Rhys Thomas. |
| **Dyddiad** | 22/03/2023 |
| **Swyddog Arweiniol** | Lauren Roberts- Swyddog Contractau a Chomisiynu |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Ann Lloyd - Pennaeth Gwasanaeth |
| **Awdur yr Adroddiad** | Lauren Roberts- Swyddog Contractau a Chomisiynu |
| **Teitl** | Ymestyn Contract Adferiad Lake Avenue- Wedi'i ariannu drwy Grant Cymorth Tai |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i ymestyn prosiect tai â chymorth Adferiad Lake Avenue sydd wedi'i ariannu drwy Grant Cymorth Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad i gymeradwyo ymestyn prosiect Adferiad Lake Avenue am y tro olaf er mwyn i ni ystyried cyfleoedd ailfodelu gwasanaethau iechyd meddwl o fewn cyllid Grant Cymorth Tai. Mae hyn yn golygu edrych ar yr opsiwn o uno nifer o gontractau iechyd meddwl mewn i un, er mwyn cynnig gwasanaeth mwy hyblyg sy'n cael ei arwain gan anghenion. Mae'r dirwedd rydym ni'n gweithredu ynddi wedi newid, gan olygu na fu modd i ni gwblhau'r ymarfer tendr a fwriadwyd ar ôl ymestyn y contract blaenorol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelod Arweiniol yn cymeradwyo ymestyn y contract fel y nodir yn yr Adroddiad Amrywio Contract yn Atodiad 1. Gweler isod ar gyfer gwybodaeth ychwanegol am yr adroddiad amrywiad.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Tai â Chymorth Adferiad Iechyd Meddwl yn brosiect tai â chymorth hyblyg a dwys iawn sydd â chyfyngiad amser i roi llety a chymorth i bobl ddigartref sydd ag anghenion iechyd meddwl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl. Mae’r contract yn cael ei fonitro’n rheolaidd ac nid oes unrhyw achos pryder.

4.2. Mae’r prosiect yn cyd-fynd yn dda gyda blaenoriaeth Tîm Atal Digartrefedd Cyngor Sir Ddinbych i atal digartrefedd.

4.3. Mae’r costau parhaus wedi’u cynnwys o fewn y gyllideb a glustnodwyd o Grant Cymorth Tai Sir Ddinbych tan 31 Mawrth 2024. Bydd y rhain yn parhau i fod o fewn y gyllideb ar gyfer 2024/2025.

4.4. Mae’r gwasanaeth yn parhau i fod yn hanfodol i ddarparu cymorth atal digartrefedd/materion sy’n ymwneud â thai yn Sir Ddinbych tra byddwn ni’n symud tuag at ailgartrefu cyflym. Petaem ni’n colli’r gwasanaeth yma fe fyddai’n arwyddocaol i nifer o ddinasyddion sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth yng Nghyngor Sir Ddinbych.

4.5. Mae croesawu ailgartrefu cyflym yn golygu bod angen newid ffordd o feddwl yn ogystal â chyflunio’r gwasanaeth. Bydd pawb yn cael eu hystyried eu bod yn ‘barod am dŷ’ gyda’r gefnogaeth gywir, yn hytrach na gorfod profi eu bod yn barod i gael mynediad at dŷ. Cartref annibynnol, prif ffrwd fydd y dull arferol pan fydd rhywun yn dod yn ddigartref. Tra y bydd llety â chymorth yn parhau’n opsiwn, fe allai pobl sy’n cael eu hatgyfeirio i lety â chymorth ddewis byw mewn cartref annibynnol, prif ffrwd gyda chefnogaeth yn y dirwedd ailgartrefu cyflym. Mae hyn yn codi cwestiwn ar gyfer rôl llety â chymorth a darpariaeth cefnogaeth yn ôl yr angen yn y dyfodol.

4.6. Rydym ni’n gofyn am estyniad i’r contract yma er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer cwmpasu graddfa a galw tai â chymorth i sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd â thrawsnewidiad Sir Ddinbych i ddull ailgartrefu cyflym i fynd i’r afael â digartrefedd ac ymarfer caffael. Ni fyddai proses dendro yn ddoeth ar hyn o bryd gan fod angen i ni sicrhau bod ein portffolio tai â chymorth yn cyd-fynd â’n trawsnewidiad i ailgartrefu cyflym, a fydd yn golygu rhywfaint o ad-drefnu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Os cytunir ar y penderfyniad i ymestyn, fe fydd yn galluogi'r broses gomisiynu i sicrhau bod 9 maes y Cynllun Corfforaethol yn cael eu hystyried ym manyleb newydd y gwasanaeth ac felly yng nghontract y cyflenwr. Yn benodol, fe fydd y cynnig yma'n cefnogi'r themâu: 'Sir Ddinbych gyda thai o ansawdd sy'n diwallu anghenion pobl' a 'Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal'.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cost gyffredinol yr estyniad (1 Ebrill 2023- 31 Hydref 2024) yw £221,127.54 gan olygu mai cost gyffredinol y prosiect yw £1,064,142.34. Caiff ei ariannu drwy glustnodi Grant Cymorth Tai Cyngor Sir Ddinbych.

6.2. Nid oes angen adnoddau ychwanegol (staffio nac ariannol) gan fod y gwasanaeth yn parhau a bydd yn parhau fel y mae.

6.3. Fe fydd angen i'r adran Gyfreithiol awdurdodi'r weithred amrywio o dan sêl.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les y tro hwn, penderfyniad dirprwyedig sydd ei angen ar yr adroddiad ac nid yw'n mynd nid i'r Cabinet. Nid yw'r prosiect yn newid ei ddarpariaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn unrhyw ffordd, y cyfan sydd ei angen yw ei ymestyn er mwyn i'r gwaith ailgomisiynu allu digwydd. Felly nid oes yna newid yn yr effaith i les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Gwnaed y cais i ymestyn y contract hwn gan y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Gwasanaeth. Fe wnaed y penderfyniad ar ôl cyfarfod tîm mewnol pan gynhaliwyd adolygiad o swyddi, cyfrifoldebau a darpariaeth bresennol. Daethpwyd i'r casgliad y bydd rhagor o waith yn cael ei gynnal i adnabod unrhyw fylchau mewn darpariaeth ac edrych ar ailfodelu 5 prosiect iechyd meddwl grant cymorth tai er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy symlach, hyblyg.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Caiff y gwariant ei ariannu gan gyllid allanol ac mae wedi cael ei gynnwys yn yr amcanestyniadau ar gyfer y grant hwnnw. Cefnogwyd yr adroddiad.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. **Risg-** Os na gytunir ar ymestyn y contract yma, byddai lliniaru'r effeithiau, yn cynnwys darparu cefnogaeth arall i ddinasyddion yn her sylweddol o fewn yr adnoddau presennol.

**Lliniaru-** Mae monitro cyswllt a thrafod rheolaidd rhwng y Tîm Atal Digartrefedd a'r Adferiad Recovery trwy gydol y flwyddyn yn sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, bod risgiau sy'n gysylltiedig â darparu'r contract yn gallu cael eu hadnabod a'u lliniaru cyn gynted â phosibl.

**10.2. Risg-** Os na fydd y gwasanaeth yma ar gael, fe fydd yn effeithio ar allu dinasyddion i gynnal eu tenantiaethau gan arwain at fwy o ddigartrefedd a chostau cynyddol i Gyngor Sir Ddinbych os oes angen llety dros dro. Mae atal yn flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth yma, ac mae hyn wedi'i brofi yn ystod y cyfnod contract presennol.

**Lliniaru-** Fe fyddai ymestyn yn golygu y gellir parhau ag adnodd sydd fawr ei angen yn Sir Ddinbych. Petai angen proses dendro fe fyddai yna siawns o effaith ariannol yn ystod y cyfnod newid rhwng darparwyr pan fyddai angen i'r Cyngor ddarparu llety dros dro.

10.3. **Risg-** Os nad yw'r gwasanaeth ar gael, fe fyddai'r Cyngor angen sicrhau darpariaeth briodol arall a fyddai'n debygol o gael goblygiadau cost ehangach.

**Lliniaru-** Fe fyddai ymestyn yn golygu y gellir parhau â'r adnodd sydd fawr ei angen yn Sir Ddinbych.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Tai (Cymru) 2014

11.2. Mae cyfanswm gwerth y contract yn uwch na'r trothwy caffael ysgafn ac felly fe fyddai yna risg o gael ei herio. Gofynnwyd am estyniad o un flwyddyn y llynedd

i alluogi’r gwasanaeth i gynnal adolygiad o’r gwasanaeth a sut roeddynt yn rhagweld y byddai’n cael ei ddarparu yn yr hirdymor.  Mae’r maes gwasanaeth bellach yn wynebu heriau pellach - “Roeddem wedi bwriadu gwerthuso’n holl brosiectau cymorth iechyd meddwl gyda’r bwriad o fod â gwasanaeth mwy hyblyg wedi’i arwain gan anghenion, serch hynny mae’r dirwedd rydym ni’n gweithredu ynddi wedi newid, gan olygu na fu modd i ni gwblhau’r ymarfer tendro a fwriadwyd ar ôl yr estyniad contract blaenorol.  Mae’r sector tai â chymorth yn wynebu heriau newydd gydag arweiniad budd-dal tai newydd yn golygu nad yw’r cyfraddau budd-dal tai uwch mewn lleoliad tai â chymorth wedi’u gwarantu ochr yn ochr â’r newid disgwyliedig tuag at ddull Ailgartrefu Cyflym sy’n cael ei yrru gan Lywodraeth Cymru.  Felly, mae’n rhaid i ni gynnig am estyniad tan 31 Hydref 2024, i’n galluogi i wneud y gwaith gofynnol i ddod i benderfyniad ynghylch sut y mae’n rhaid llunio’r contract hwn a’i gyflawni yn y tymor hwy.”

11.3. Yn unol â phwerau sydd wedi'u dirprwyo i ddeiliad portffolio’r Cabinet fel y nodir yn Atodiad 2(b) yn Adran 13 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.